

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU CRAFFU 2016-17

STRONG COMMUNITIES  
WITH A  
BRIGHT FUTURE



## Beth yw Craffu?

Mae Craffu yn holl bwysig i waith Cyngor Bro Morgannwg a'i bartneriaid. Mae'n rhoi tawelwch meddwl i bobl leol, yn cynorthwyo i ddatblygu polisi, yn gwella perfformiad y Cyngor ac yn dal y Weithrediaeth yn atebol am ei benderfyniadau.

Mae Craffu yn “**gyfaill beirniadol**”, yn cymryd cam yn ôl oddi wrth benderfyniadau o ddydd i ddydd i edrych ar ganlyniadau i drigolion lleol, a'u hadolygu.

Gwneir y rhan fwyaf o benderfyniadau'r Cyngor gan grŵp bach o Gynghorwyr gaiff eu hadnabod fel y **Cabinet** (y'i hadwaenir hefyd fel y Weithrediaeth). Caiff Cynghorwyr nad ydyn nhw'n aelodau o'r Cabinet eu hadnabod fel Aelodau Anweithredol). Yr Aelodau Anweithredol hyn gaiff y cyfle i eistedd ar Bwyllgor Craffu.

Gall Pwyllgorau Craffu wneud argymhellion a chraffu ar bolisiau, penderfyniadau a pherfformiad y Cabinet. Mae'r Cabinet, yn ei dro yn ymgynghori â'r Pwyllgorau Craffu ar faterion, ac yn ymateb i argymhellion y Pwyllgorau Craffu.



## Sut mae Craffu'n gweithio?

Yn 2016/17 cyflwynwyd **dull newydd** a ffres o Graffu ym Mro Morgannwg. Cytunodd y Cyngor fod yn rhaid i waith Craffu ddigwydd ochr yn ochr â phedwar **Canlyniad Llesiant** newydd y Cyngor.

- **Bro Gynhwysol a Diogel**
- **Bro Lewyrchus a Chyfrifol yn Amgylcheddol**
- **Bro Uchelgeisiol â Diwylliant Byw**
- **Bro Iach ac Actif**

Rhain yw sail Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor, ac maent yn gam i ffwrdd o'r trefniadau craffu blaenorol oedd yn “canolbwyntio ar wasanaethau”. Mae hyn yn golygu mwy o waith trawsbynciol ar draws gwasanaethau a chyfarwyddiaethau'r Cyngor, bob un yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ei brif amcanion.

O ganlyniad, ers mis Mai 2016, ail-drefnwyd teitlau a chylch gorchwyl y Pwyllgorau Craffu fel a ganlyn:

- Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau
- Yr Amgylchedd ac Adfywio
- Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol
- Cartrefi a Chymunedau Diogel
- Dysgu a Diwylliant

## The way that we work...

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM

Mae pob Pwyllgor yn gysylltiedig ag un neu fwy o'r Canlyniadau Llesiant; bob un gyda'i **Amcanion** ei hun fel y dangosir isod:

### **Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau** Trosolwg ar lechyd Corfforaethol.



### **Yr Amgylchedd ac Adfywio**



- Hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.
- Hybu datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd.

### **Cartrefi a Chymunedau Diogel**



- Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol
- Darparu cartrefi addas a chymunedau diogel.

### **Dysgu a Diwylliant**

- Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol
- Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.



### **Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol**



- Annog a hybu ffordd o fyw actif ac iach
- 
- Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hybu byw annibynnol

Cafodd cylch gorchwyl a maes ffocws pob pwyllgor ei deilwra i gyd-fynd â'r Amcanion hyn, gyda **Chynlluniau Gwaith i'r Dyfodol** yn cael eu creu (a'u diweddarau bob tri mis) i ddangos y materion i'w hystyried.

Mae **Cynlluniau Gwaith** y Pwyllgorau yn canolbwyntio ar sut fydd y Cyngor yn cyflawni ei brif flaenoriaethau ac amcanion, fel yr amlinellir o fewn **Cynllun Corfforaethol** y Cyngor. Yn unigol, a gyda'i gilydd, mae pob Pwyllgor Craffu yn ymgymryd â'i waith yn y ffyrdd canlynol:

- Ymdrechu i wella gwasanaethau i gael gwell canlyniadau i drigolion;
- Clywed barn a lleisiau'r cyhoedd;
- Ychwanegu gwerth i'r ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud;
- Ymddwyn yn gadarnhaol fel 'cyfaill beirniadol';
- Dysgu gan eraill.

### Y Flwyddyn yn Gryno

Ymhlith y meysydd gwaith allweddol yn 2016/17:

- Craffu i weld pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion, fel y'u hamlinellir yn y **Cynllun Corfforaethol** newydd;
- Gwneud cyfraniadau cadarnhaol i ddatblygiad polisi, ac i'r gwelliant parhaus yn swyddogaethau'r Cyngor;
- Edrych ar effaith yr **arbedion ariannol** y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyflawni, a chraffu ar oblygiadau toriadau pellach;
- Gwerthuso cynigion am wasanaethau, ddaw yn sgil project **Ail-lunio Gwasanaethau'r** Cyngor;



- Archwilio'r **potensial am rannu gwasanaethau neu weithio ar y cyd** wrth gynnig gwasanaethau;
- Parhau i fonitro **lefelau cyrhaeddiad** ein disgyblion ac i asesu'r heriau sy'n wynebu ysgolion;
- Derbyn gwybodaeth am gynnydd y Cynlluniau Gweithredu a ddatblygwyd o adolygiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o **Reoli Trafnidiaeth a Thechnoleg Gynorthwyol**;
- Derbyn adroddiadau am y diweddaraf ar oblygiadau'r Agenda **Diwygio Lles**;
- Edrych ar Raglen **Ysgolion yr 21ain Ganrif** yn y Barri;
- **Adfywio a datblygu cynaliadwy**

Ceir crynodeb o waith y 5 Pwyllgor Craffu yn 2016-17 ar y tudalennau nesaf

## Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau

Amcan - Trosolwg cyffredinol ar lechyd Corfforaethol.



Meysydd allweddol gafodd eu craffu gan y Pwyllgor.....

Cafodd **cyllideb y Cyngor** a'i gynlluniau gwario drwy gydol y flwyddyn eu **monitro**, gan ganolbwyntio ar y rhannau hynny oedd dan bwysau, a chefnogwyd y broses o osod cyllideb y Cyngor am 2017/18. Rydym wedi chwarae rhan allweddol wrth fonitro strategaeth fuddsoddi'r Cyngor, ac wedi cadw llygad barcud ar y Cyfrif Refeniw Tai.

Adolygwyd yr ystod o weithgareddau i hybu **cynaliadwyedd**, a thynnwyd sylw at brojectau cyffredol sydd wedi cael eu cyflawni neu sy'n aros i gael eu cwblhau. Rhagwelir y bydd y rhain yn arbed £237,000 mewn costau tanwydd i'r Cyngor, ac yn gostwng allyriadau o 1,500 tonnall y flwyddyn. Cydnabu'r Pwyllgor y gwaith sy'n mynd rhagddo, a bydd yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn.

Llwyddodd y Pwyllgor i fonitro'r cynnydd yng ngwaith y Cyngor parthed gweithredu Agenda **Diwygio Lles** Llywodraeth y DU. Mae'r Pwyllgor yn dal i gadw llygad ar effaith y diwygiadau lles, yn arbennig felly nifer y bobl sydd wedi gweld gostyngiad yn eu Budd-dal Tai, a nifer y bobl sy'n gwneud cais am Gredyd Cynhwysol.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth fanwl am gyfraddau **trosiant cyflogeion** o fewn y Cyngor, a thrafodwyd dadansoddiad pellach o'r rhesymau pam fod pobl yn dewis gadael eu swyddi yno. Anfonwyd y casgliadau i'r Cabinet, fydd yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio'r gweithlu.

Bu'r Pwyllgor yn edrych yn fanwl ar lefelau **absenoldeb yn sgil salwch** o fewn y Cyngor, gan edrych yn fanylach ar y lefelau uchel o absenoldeb oherwydd straen, ynghyd â'r cymorth a'r gefnogaeth y mae'r Cyngor yn eu rhoi i'w staff.

Dan gysgod gostyngiad yn y gyllideb, mae'r Cyngor wedi dechrau ar strategaeth o edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynnig - "**Ail-lunio Gwasanaethau**". Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn sawl maes, fel rhan o adolygiadau o wasanaethau, mewn un cam, cyn symud ymlaen at yr ail gam. Mae'r rhain yn cynnwys y **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir** gyda Chynghorau Pen-y-bont-ar-Ogwr a Chaerdydd, a hefyd mewn perthynas â'r ffordd y mae'r **gwasanaethau Llyfrgell, Arlwyyo ac Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn cael eu cynnig.

Yn ôl arolwg gan Swyddfa Archwilio Cymru, roedd Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor yn enghraifft o arfer da ac yn dangos bod y Cyngor yn dilyn y broses gywir o ran trawsnewid gwasanaethau. Roedd hyn yn rhoi tawelwch meddwl i'r Pwyllgor.



## Y Pwyllgor Craffu ar yr Amgylchedd ac Adfywio

### Canlyniad Llesiant – Bro Lewyrchus a Chyfrifol yn Amgylcheddol

Amcanion -

- Hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.
- Hybu datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd.

Meysydd allweddol y mae'r Pwyllgor wedi eu craffu....

Fel rhan o **Strategaeth Goleuo Strydoedd a Lleihau Ynni'r Cyngor**, ac ar ôl cael ei gyfeirio gan y Cabinet yn Ebrill 2016, cyflwynwyd nifer o opsiynau, gyda'r Pwyllgor yn argymhell Opsiwn 3 gan mai hon, yn eu tyb hwy, oedd y strategaeth fwyaf cynhwysfawr i'r Cyngor ei dilyn. Opsiwn 3 yw: "Pylu'r goleuadau LED presennol am hanner nos, a buddsoddi £1.2m yn 2016/17 a £100k yn 2017/18 a 2018/19 mewn goleuadau stryd preswyl LED i'w pylu am hanner nos".

O ystyried y lleihad mewn gwaith cynnal a chadw, a'r dreth garbon, dyma oedd y dewis oedd yn rhoi'r arbedion mwyaf ond dau. Fe fyddai'n cymryd 7.54 mlynedd i dalu'r buddsoddiad yn ymwneud â'r gwaith yn ôl, gyda'r arbediad ychwanegol oddeutu £134k.

Cododd aelodau bryderon am ddiogelwch goleuadau LED, ond rhoddwyd sicrwydd y byddai'r goleuadau LED dan sylw yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd perthnasol. Ar ôl cryn dipyn o drafod, cafodd y Pwyllgor wybod bod y modiwlau LED wedi'u selio'n llwyr, a bod y lens wedi'i wneud o polycarbonate, na fyddai unrhyw fandal yn gallu'i thorri. Ac o ganlyniad i'r ffaith nad oes gan y goleuadau LED wydr ffilament na chaead gwydr, maen nhw'n gallu gwrthsefyll cryndod yn go dda. Dydy goleuadau LED ddim chwaith yn cynhyrchu allyriadau isgoch nac uwchfioled, ac fe'i defnyddir i amddiffyn ardaloedd chwilota er mwyn gwarchod cynefin ystlumod.

Fel ffordd o "gadw llygad" ac fel rhan o'i gynllun gwaith, gofynnodd y Pwyllgor am y diweddaraf ar dri **chynllun lliniaru llifogydd** yn y Fro, sef Crynhoad Dŵr Coldbrook, Llan-faes a Threbefered. Cyn i gyflwyniad llawn gael ei roi gerbron y Pwyllgor yn Chwefror 2017, trefnwyd ymweliad ar fore'r cyfarfod Craffu i Grynhoed Dŵr Coldbrook, gyda gwahoddiadau hefyd i aelodau'r wardiau lleol.

Roedd Cynllun Crynhoad Dŵr Coldbrook wedi bod yn gynllun cymhleth, a bu nifer o faterion rheoli sylweddol i'w datrys, a gwaith clirio safle/stryd mewn sawl ardal. Er yn cydnabod bod cost Cynllun Crynhoad Dŵr Coldbrook wedi codi'n sylweddol, a bod nifer o newidiadau wedi bod ers y cynllun gwreiddiol, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gais i ailasesu'r safle, er mwyn cynyddu'n sylweddol faint o ddŵr fyddai'n cael ei storio. O ganlyniad, roedd cymhlethdodau cynyddol gyda'r cynllun, gan gynnwys yr elfennau gwahanol ganfuwyd wrth ei adeiladu e.e. darnau mawr o goncrid mewn



ceuffydd oedd angen eu gwaredu, nifer o newidiadau bach yn y dyluniad, amodau'r tir ac ati – arweiodd hyn i gyd at gais am £1.5m yn ychwanegol. Croesawodd aelodau'r ffaith bod cylchlythyron yn cael eu hanfon yn gyson at drigolion lleol gan y contractwr, yn rhoi manylion am y cynllun a gwybodaeth gyfredol.

Rhodddwyd ymatebion manwl i gwestiynau'r Aelodau, yn arbennig felly'r cynnydd mewn costau, a rhodddwyd cyflwyniad pellach ar y cynlluniau lliniaru llifogydd ar waith yng ngweddill y Fro e.e. Llantrithyd Road, Saint Hilari; Llancatal; Lougher Place, Sain Tathan; Old Wick Road, Llanilltud Fawr; Readers Way, Y Rhws; Smithies Avenue, Sili; Heol Penarth, Penarth; a Windsor Road, Penarth.

Fel yr Awdurdod Arweiniol, mae gan y Cyngor y cyfrifoldeb statudol i ymchwilio i lifogydd sylweddol a phwerau a ganiateir i ddatblygu cynlluniau lliniaru llifogydd yn amrywio o welliannau bach i waith peirianeg sifil gwerth miliynau o bunnau. Er yn cydnabod y gellir rheoli rhai risgiau, cydnabuwyd hefyd na ellir dileu'r risgiau'n llwyr.

O ystyried effaith y gwaith ar drigolion lleol, cydnabu'r Pwyllgor fod nifer o drigolion wedi goddef y gwaith parhaus dros y misoedd diwethaf, yn arbennig y rhai na gafodd lifogydd, a'i fod wedi achosi anghyfleustra iddyn nhw.

Roedd y cynnydd a wnaed yn dilyn yr **Adolygiad Gorchwyl a Gorffen Rheoli Traffig** yn dal i gael ei fonitro, gyda chydabyddiaeth bod cynnydd wedi ei wneud ar y rhan fwyaf o gamau gweithredu, gyda rhai wedi'u cwblhau, a rhai i'w gweld eto yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol mabwysiedig. Gyda'r ddau adroddiad ar y llif gwaith wedi'u cyfuno, mae'r Pwyllgor wedi gallu derbyn y diweddaraf mewn un adroddiad unigol o 2016/17 ymlaen. Yn dilyn argymhellion y Pwyllgor, llwyddwyd i symud ymlaen ar y **camau gwella** o fewn y Cynllun gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau ariannol, e.e. cyfalaf mewnol neu gyllidebau refeniw, cymorthdaliadau trafndiaeth, cyllid Adran 106, Gwaith Priffyrdd Adran 278 fel rhan o ddatblygiadau newydd, a chymorthdaliadau eraill.

O ganlyniad i'r adolygiad, mae Aelodau nawr yn derbyn gwybodaeth wythnosol am faterion yn ymwneud â phriffyrdd, sy'n cael ei weld fel offeryn defnyddiol iawn o ran gwybodaeth a rheoli.

Cafwyd cyflwyniad manwl iawn o **gynllun arwynebu tair blynedd** y Cyngor, gyda gwahoddiadau i bob Aelod o'r Cyngor.

Bu'r cyflwyniad yn manylu nid yn unig ar y gost o gynnal y rhwydwaith, ond hefyd y dulliau gwahanol o gynnal a chadw'r ffyrdd. Roedd y cynllun tair blynedd yn cynnwys system sgorio blaenoriaethu arwyneb lôn gerbydau, sy'n ystyried wyth maen prawf. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Adeiladau, Priffyrdd a Chludiant ar y pryd, bod angen ystyried 616 milltir o briffyrdd, ac mewn oes o gynni, fyddai byth digon o arian i roi arwyneb newydd yn y modd yr hoffai'r Cyngor ei weld. O'r herwydd, roedd y cynllun tair blynedd yn targedu gwariant cyfalaf yn y ffordd fwyaf effeithiol a lle roedd ei angen fwyaf.

The way that we work...

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM



## Y Pwyllgor Craffu Tai a Chymunedau Diogel

### Canlyniad Llesiant – Bro Gynhwysol a Diogel

Amcanion -

- Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol
- Darparu cartrefi addas a chymunedau diogel.

Meysydd allweddol y mae'r Pwyllgor wedi eu craffu....

Adolygwyd perfformiad contractwyr yn ymwneud â gwaith gwella **Safon Ansawdd Tai Cymru** yn nhai cyngor y Fro, ac aseswyd sut y mae'r Cyngor yn monitro risgiau ariannol. Ystyriodd y Pwyllgor y rhesymau am achosion o oedi, gwerthuswyd lefelau boddhad ac edrychwyd ar sut y mae'r Cyngor yn sicrhau bod safonau angenrheidiol o waith yn cael eu bodloni.

Aseswyd **lefelau boddhad tenantiaid y Cyngor** ar ôl i arolwg eang ("STAR") gael ei gynnal. Roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda chymdogaethau fel lle i fyw, agwedd y staff a rhent yn werth am arian, i gyd yn cael sgoriau uchel. Fodd bynnag, sgôr isel a roddwyd ynglŷn â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, a doedd pob tenant ddim yn ei chael hi'n hawdd cysylltu â'r person cywir o fewn yr awdurdod - canlyniad hyn oedd bod tenantiaid yn teimlo nad oedd neb yn gwrando.

Rhannwyd canlyniadau'r arolwg gyda thenantiaid a staff y Cyngor, ac maent wedi bod yn gymorth i adnabod llefydd i wella, a materion a blaenoriaethau allweddol. Roedd hyn yn cynnwys creu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â materion allweddol a gyrru gwelliannau, ystyried ffyrdd o wella cyfathrebu a nodi sut i gasglu data ynglŷn â bodlonrwydd ar sail barhaol.

Yn gysylltiedig â **Pherfformiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid**, adolygwyd perfformiad a gwelwyd canlyniadau cadarnhaol i unigolion sy'n chwilio am gymorth am drafferthion gyda chamddefnyddio sylweddau. Gwnaed aelodau hefyd yn ymwybodol o'r risgiau a'r heriau sy'n codi o doriadau mewn cyllid, ac maent wedi mynegi eu pryder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Bu'r Pwyllgor yn dadansoddi ystadegau cenedlaethol a lleol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cael ei danio gan alcohol, i benderfynu a fyddai **cynllun anadlieddydd** yn debygol o lwyddo yn ardaloedd economi'r nos ym Mro Morgannwg, ac i ystyried cynlluniau ar gyfer y fenter yn y dyfodol. Byddai hyn yn gwireddu ei swyddogaeth o hybu gweithredu mewn partneriaeth i leihau trosedd ac anhrefn, ac ofn troseddu o fewn Bro Morgannwg.

The way that we work...

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM





## Y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant

### Canlyniad Llesiant – Bro Uchelgeisiol â Diwylliant Byw

Amcanion -

- Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol.
- Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.

Meysydd allweddol y mae'r Pwyllgor wedi eu craffu....

Cafodd safonau cyrhaeddiad cyffredinol mewn **Perfformiad Ysgolion** eu monitro'n barhaus, gydag ymyriadau yn cael eu hargymell lle bo angen. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i barhau i fonitro'r cynnydd o ran culhau'r bwloch rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a'r rhai nad ydyn nhw'n gymwys.

Cafodd **Panelli Perfformiad Ysgolion** eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn i ysgolion sy'n tangyflawni (sef Ysgol Gyfun Bryn Hafren ac Ysgol Gynradd Fairfield), a'r diben yw trafod gyda'r ysgolion a Chadeiryddion y Llywodraethwyr, pa mor gyflym a chynaliadwy yw'r gallu i wella. Yn achos Bryn Hafren, argymhellwyd sefydlu Bwrdd Gwella Carlam i gynorthwyo gyda'r daith i wella, ac mae disgwyl am ganlyniadau arholiadau TGAU 2017. Cydnabu Aelodau'r Panel bwysigrwydd rhannu arfer da, ac y dylid rhannu unrhyw offerynnau / systemau a ddyfeisiwyd ledled ymhob ysgol, i'w cynorthwyo nhw i wella.

Mae nifer o ddigwyddiadau yn gallu arwain at yr angen am gyfarfodydd ar gynnydd ysgolion unigol. Gall y rhain gynnwys cyhoeddi canlyniadau gwan mewn arholiadau allanol, arolwg gan Estyn yn rhoi ysgol mewn categori statudol, neu ganlyniad proses gategoreiddio genedlaethol yn nodi bod angen rhagor o gefnogaeth ar ysgol er mwyn gwella. Mae'r Paneli hefyd yn nodi unrhyw **rwystrau i wella** y gellir eu goresgyn gyda chymorth ychwanegol gan y Cyngor.

Mae gwaith **Consortiwm Canolbarth y De** yn dal i gael ei fonitro, gyda'r cyfle'n codi i ddal y Rheolwr Gyfarwyddwr yn gyfrifol, a gwahoddiad yn cael ei roi i fynychu cyfarfodydd Craffu yn flynyddol a phan fo angen. Yn ddiweddar ffurfiwyd gweithgor o'r pum awdurdod lleol (sy'n ffurfio'r CCD), ac arno Gadeirydd Pwyllgorau Craffu pob awdurdod, a'u swyddogion cymorth craffu perthnasol. Bydd y grŵp yn ystyried cynigion i wella perthynas y Consortiwm â'r swyddogaeth graffu ar lefel ranbarthol, er mwyn ystyried perfformiad rhanbarthol a rhannu arfer gorau a gwybodaeth. Bydd adroddiad ar y cynllun gwaith a chylch gorchwyl y grŵp yn cael ei gyflwyno'n fuan i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn yr Awdurdodau Lleol i'w gymeradwyo.

The way that we work...

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM

Ystyriodd y Pwyllgor yn Hydref 2016 gynnig i sefydlu **Ysgolion Uwchradd Rhyw Cymysg yn y Barri**. Rhoddodd y cyfarfod y cyfle i aelodau'r cyhoedd, rhanddeiliaid allweddol, cynrychiolwyr yr

undebau llafur, llywodraethwyr yr ysgolion perthnasol, ac ysgolion cynradd fyddai'n bwydo'r ysgolion newydd, y cyfle i roi eu sylwadau'n uniongyrchol i'r Pwyllgor.

Yn sgil gweithgaredd ymgysylltu gyda'r cyhoedd, disgyblion, staff a llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd y Barri a Bryn Hafren ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, roedd y Bwrdd Ymgynghorol a sefydlwyd i ystyried y dewisiadau, wedi cytuno ar yr opsiynau a nodir isod:

- (i) Ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol gyda mynediad newydd o Port Road;
- (ii) Adeiladu ysgol rhyw cymysg 11-18 newydd ar safle Ysgol Gyfun y Barri;
- (iii) Creu ysgol rhyw cymysg 11-18 fodern drwy adnewyddu a moderneiddio safle Bryn Hafren, drwy ddarparu rhai cyfleusterau newydd.

Yr hyn oedd yn gyrru'r awydd i drawsnewid y ddarpariaeth addysg cyfrwng Saesneg un rhyw presennol, oedd gormod o leoedd, cyflwr yr adeiladau a safonau ysgol.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn â dalgylchoedd, creu dau Gorff Llywodraethu ar wahân, y cyfnod pontio, effaith y gwaith adeiladu, yr enillion posib i ddisgyblion, sefydlu Canolfan Ragoriaeth ac adnoddau ariannol.

Wrth gyfeirio at effaith y gwaith adeiladu fyddai ei angen, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y Cyngor yn brofiadol wrth ddelio ag amharu o'r fath, ac y byddai'r arfer da a'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau eraill yn cael eu defnyddio wrth weithredu'r cynlluniau hyn. Derbyniwyd y byddai'r gwaith adeiladu mwyaf yn digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae monitro **mantolenni ysgolion** ynghyd ag ystyried y mesurau sydd angen eu cymryd i ostwng mantolenni gormodol sydd gan ysgolion unigol, yn parhau i fod yn rhan o gynllun gwaith y Pwyllgor bob blwyddyn. Gan gyfeirio hefyd at gynlluniau adennill cyllidebau ysgolion, gofynnwyd i Bennaeth Ysgol Gyfun St. Cyres fynychu cyfarfod yn Hydref 2017 fel bod Aelodau'n gallu gweld pa baratodau oedd yn cael eu gwneud i leihau'r diffyg yn y gyllideb, ac i ddeall pa ymwneud fu gan y Llywodraethwyr wrth ddyfeisio cynllun adennill.

The way that we work...

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM



## Y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol

### Canlyniad Llesiant – Bro Iach ac Actif

#### Amcanion -

- Annog a hybu ffordd o fyw actif ac iach
- Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hybu byw annibynnol

Meysydd allweddol y mae'r Pwyllgor wedi eu craffu....

Yn dilyn llawer o waith da a wnaed yn ystod 2015/16, derbyniodd y Pwyllgor ddau adroddiad yn rhoi'r diweddaraf am y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**. Roedd y Pwyllgor yn gallu dangos i'r Cabinet fod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o amharu ar wasanaethau i ddefnyddwyr. Er gwaethaf hyn, cododd y Pwyllgor bryderon bod y rhestr aros am Wasanaethau Oedolion wedi tyfu, a bod hynny o ganlyniad yn uniongyrchol o bosib i'r ffaith bod newidiadau wedi bod i arferion gofal ar gyfer pobl hŷn.

**Llwyddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru i ddod o hyd i amser yn eu hamserlenni prysur i annerch y Pwyllgor.** Roedd y Pwyllgor wedi cael trosolwg craff o rai o brif heriau a meysydd gwaith y Comisiynwyr, oedd yn hynod ddefnyddiol iddyn nhw. Yn achos pobl hŷn, rhoddodd y Pwyllgor sylw arbennig i'r ffaith y dylid gwrandao yn fwy astud arnynt, a sut y gellid defnyddio eu profiad a'u gwybodaeth fel adnodd sydd heb ei ddefnyddio hyd yma.

O ran plant, **prif negeseuon** y Comisiynydd oedd pwysigrwydd ymgorffori hawliau plant wrth i Gynghorau greu eu prif amcanion llesiant, ac y dylid rhoi mwy o sylw pan fo pobl sy'n gadael gofal yn pontio i fywyd fel oedolion.

Bu'r Pwyllgor yn gwerthuso'r heriau sy'n ymwneud â lefelau uchel o **ordewdra ymhlith plant**, gan ystyried y prif gamau sydd eu hangen i daclo'r mater hollbwysig hwn. Rhoddwyd cyflwyniad gan y Dr Suzanne Wood, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth lechyd y Cyhoedd, gyda'r Pwyllgor yn falch o glywed bod cyfradd gordewdra ymhlith plant oedran derbyn yn y Fro, yr isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, ystyriodd y Pwyllgor y rôl hanfodol sydd gan ysgolion i'w chwarae, a holwyd a oedd mwy y gellid ei wneud i annog teuluoedd i fwyta'n iachach, ac i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau corfforol.

#### The way that we work...

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor Craffu yn monitro cynnydd datblygiad strategaeth i fynd i'r afael â'r ffordd y gallai'r Cyngor helpu i sicrhau bod **anghenion pobl hŷn am Lety gyda Gofal** yn cael eu diwallu. Tynnwyd sylw at y ffaith bod heriau sylweddol yn aros, yn arbennig o gofio bod yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor yn lleihau, a bod y galw am wasanaethau i bobl dros eu 65 yn cynyddu. Gan gofio bod angen buddsoddiad cyfalaf a referniw mewn cyfleusterau llety a gofal, rhaid ystyried newidiadau posib mewn deddfwriaeth a pholisi wrth gynllunio datblygiadau mewn gwasanaethau a gymer beth amser i'w cyflawni.

Llwyddodd y Pwyllgor i asesu sut mae **gwasanaethau iechyd meddwl** yn y Fro yn gweithredu, gan ystyried y gwaith ychwanegol sy'n cael ei gyflawni gan weithwyr cymorth cymunedol er mwyn sicrhau bod oedolion â chyflwr iechyd meddwl yn dilyn ffordd iach o fyw. Edrychodd y Pwyllgor hefyd ar yr effaith ar adnoddau cymunedol, o ganlyniad i gynnydd yn y galw yn sgil newidiadau deddfwriaethol diweddar.

Un mater o bryder i'r Pwyllgor oedd cyflwr ac addasrwydd adeilad Amy Evans sy'n gartref i Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol Canolbarth y Fro. Cafodd y pryderon hyn eu pasio mlaen i'r Cabinet, sydd wedi codi'r mater gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac wedi gofyn am y diweddaraf ar gynlluniau i fuddsoddi yn y dyfodol.

Yn ystod 2016 a chyn i'r Cabinet eu cymeradwyo, bu i'r Pwyllgor werthuso dau broject oedd yn deillio o Raglen **Ail-lunio Gwasanaethau**'r Cyngor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor edrych ar y ffordd y bydd y **gwasanaeth Pryd ar Glud** yn cael ei ddarparu yn y dyfodol. Ar ôl ystyried nifer o opsiynau, cefnogwyd cynnig i roi'r gorau i'r gwasanaeth Pryd ar Glud mewnol, a chyfeirio defnyddwyr gwasanaethau at gyflenwyr amgen. Canlyniad hyn yw bod y Cyngor yn gweithio gyda menter gymdeithasol newydd o'r enw 'The Food Shed'.

Yn ychwanegol, ystyriwyd cynigion i newid y ffordd y mae **gofal seibiant** yn cael ei gynnal i **oedolion ag anableddau dysgu**. Y dewis oedd yn cael ei amlinellu fel yr un gorau, oedd cau'r cyfleuster yn Rhoose Road a defnyddio cyfleusterau seibiant amgen addas. Cydnabu'r Aelodau bod cydbwysedd rhwng anghenion y defnyddwyr gwasanaethau presennol, a'r angen i ddatblygu ystod ehangach o opsiynau i ddefnyddwyr gwasanaeth newydd. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet ystyried yn ofalus farn y defnyddwyr gwasanaeth presennol, ynghyd â'r trefniadau pontio i ddarpariaeth seibiant amgen ar eu cyfer, cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Cymeradwyodd y Cabinet y cynnig yn ffurfiol yn Rhagfyr 2016.

The way that we work...

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM

Ym mha fodd y cefnogir Aelodau Craffu?

Swyddogion o'r **Gwasanaethau Democrataidd** sy'n cefnogi Craffu, a'u tasg yw edrych ar ôl prosesau democrataidd yn y Fro. Mae'r tîm yn sicrhau bod gan bob Cynghorydd yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth angenrheidiol er mwyn iddynt fedru ystyried unrhyw bwnc neu faes diddordeb yn ddigonol. Er enghraifft, gall hyn olygu clywed dystiolaeth gan dystion arbenigol, neu drefnu ymweliadau safle. Mae'r tîm hefyd yn gwneud ymchwil ac yn ysgrifennu adroddiadau ar ran y Pwyllgorau, ac unrhyw waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen a wneir.

Mae nifer o Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn newydd i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth drefnu **Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau**, ar gyfer Cynghorwyr sydd newydd eu hethol neu eu hail-ethol.

Bwriad y rhaglen yw sicrhau bod gan Aelodau bob cyfle i ddod yn gyfarwydd â sut mae'r Cyngor yn gweithio, pa reolau a gweithdrefnau y mae'n eu dilyn, a chymhlethdodau swyddogaeth yr Aelod Etholedig. Mae'r Digwyddiadau Sefydlu Aelodau cychwynnol, a'r Rhaglen Datblygu Aelodau sy'n parhau, ill dau yn cael eu cynnal gyda **saith amcan llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gefndir**.

Ymgorfforwyd sesiwn **hyfforddi cychwynnol** i aelodau o fewn y Rhaglen cyn cyfarfod cyntaf pob Pwyllgor, a darperir sesiynau "**Sgiliau Cadeirio**" a "**Sgiliau Holi**". Mae'r adborth hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol.

Fel rhan o **Strategaeth Ddigidol** y Cyngor, cynhaliwyd rhaglen **Atgoffa TGCh i Aelodau**. Rhoddwyd offer i bob Aelod i'w cynorthwyo yn eu gwaith, boed hynny mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol, neu er enghraifft, wrth ymdrin ag etholwyr. Mae'r Cyngor eisoes yn gweld buddion wrth i nifer o Aelodau ddewis **hepgor papur**, a derbyn eu dogfennau ar gyfer cyfarfodydd yn electronig.

Bydd cyfarfodydd **Grŵp Craffu'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd** yn ail-ddechrau yn yr hydref, a bydd y Grŵp yn allweddol wrth barhau i ddatblygu Craffu yn y Fro. Un o'r eitemau cyntaf y bydd y Grŵp yn cael cais i'w ystyried fydd y dull o wneud gwaith Gorchwyl a Gorffen yn y dyfodol.

## Edrych Ymlaen

Gwaith allweddol ar gyfer 2017/18:

- Parhau i graffu i weld pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion, fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Corfforaethol newydd;
- Gwneud cyfraniadau cadarnhaol i ddatblygiad polisi, ac i'r gwelliant parhaus yn swyddogaethau'r Cyngor;
- Edrych ar effaith yr arbedion ariannol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyflawni, a chraffu ar oblygiadau toriadau pellach mewn adnoddau;
- Parhau i werthuso cynigion am wasanaethau, fydd yn deillio o broject Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor;

The way that we work...

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM

- Parhau i fonitro lefelau cyrhaeddiad ein disgyblion ac i asesu'r heriau sy'n wynebu ysgolion;
- Ystyried datblygu cynaliadwy ac archwilio cyfleoedd am gyllid



- Ymchwilio i drefniadau Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chonsortium Canolbarth y De
- Cefnogi Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddyn nhw ail-ymweld
- Parhau i gefnogi Ymgysylltiad gan y Cyhoedd yn y broses graffu.

### Beth yw Barn yr Archwilydd?

Yn 2013-14, dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru ar gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol o Awdurdodau yng Nghymru, yn ychwanegol at ei raglen flynyddol o astudiaethau gwella, ac archwiliadau o weithgareddau Cynghorau. Cyhoeddwyd Asesiad Corfforaethol y Cyngor yn Awst 2016. Diben yr Asesiad Corfforaethol, fel y'i disgrifir gan SAC, yw rhoi datganiad sefyllfa ar allu Awdurdod i barhau i wella. Mae'r broses asesu yn ystyried record yr Awdurdod o ran perfformiad, a'r prif drefniadau sydd yn eu lle i gynnig gwelliant parhaus. Mae'n canolbwyntio ar y graddau mae'r trefniadau yn cyfrannu at well perfformiad, a chanlyniadau o ran gwasanaethau i ddinasyddion.

**Casgliad SAC oedd: “Ar y cyfan, mae'r newidiadau y mae'r Cyngor yn y broses o'u gweithredu yn cynnig cyfle i sicrhau bod gweithgareddau craffu yn cael yr effaith fwyaf drwy:**

- **cydlynu cynlluniau gwaith i'r dyfodol i ganolbwyntio ar y prif faterion;**
- **rhyddhau amser o'r agenda i ganolbwyntio ar lai o eitemau mewn mwy o fanylder, ac felly wella effeithlonrwydd yn ogystal ag effaith;**
- **Gwella'r wybodaeth y mae Craffu yn ei dderbyn, drwy gydlynu gwybodaeth ariannol a pherfformiad, gyda gwybodaeth bwysig arall fel barn y dinesydd, a rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau, a chefnogi ystyriaeth o werth am arian**

### Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae trefniadau wedi bod yn eu lle ers Chwefror 2016 i roi cyfle i'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor. Y bwriad yw rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd gymryd rhan ym mhroses ddemocrataidd y Cyngor. Mae'n cael ei gydnabod bod angen rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r broses, felly bydd swyddogion o'r Gwasanaethau Democrataidd yn cydweithio â'r Uned Gyfathrebu yn hyn o beth.

Mae Canllaw ar Siarad yn Gyhoeddus mewn cyfarfodydd Craffu ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor yma:

[http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx)



### Am Wybod Mwy?

Os hoffech wybod mwy am waith Craffu, ewch i

Ewch i'n gwefan i weld dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r cyfarfodydd Craffu nesaf  
[http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our\\_council/Council-Structure/minutes\\_agendas\\_and\\_reports/minutes\\_agendas\\_and\\_reports.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/Council-Structure/minutes_agendas_and_reports/minutes_agendas_and_reports.aspx)

Neu gallwch gysylltu â Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu

**Rhif ffôn: (01446) 709 413**

**E-bost: [democratic@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:democratic@valeofglamorgan.gov.uk)**

**The way that we work...**

● INTEGRATION ● COLLABORATION ● INVOLVEMENT ● PREVENTION ● LONG TERM